**EITEM AR YR AGENDA: 11**

# AWDURDOD TAN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Mehefin 2006**

**RHEOLI'R TRYSORLYS**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

**1.** I roi gwybod i'r Aelodau am weithgarwch Rheoli Trysorlys yr Awdurdod yn 2005-2006 ac i geisio cymeradwyaeth o'r gwir Ddangosyddion Darbodus am 2005-2006.

## Cyflwyniad

**2.** Mae'r adroddiad trysoryddol blynyddol yn un o ofynion gweithdrefnau adrodd yr Awdurdod, ac mae'n sôn am weithgarwch y trysorlys yn 2005/06. Mae'r adroddiad hefyd yn sôn am y gwir Ddangosyddion Darbodus am 2005-06, yn unol â gofynion y Côd Darbodus.

## Crynodeb o'r Strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer 05-06

**3.** Roedd ymgynghorwyr yr Awdurdod, sef Butlers, yn rhagweld y byddai blwyddyn ariannol 2005-2006 yn gweld cynnydd y pen yn arafu gyda gostyngiad posib mewn graddau llog. Y strategaeth yn seiliedig ar yr hyn a ragwelid, oedd benthyca yn hwyr yn y flwyddyn er mwyn manteisio ar gyfraddau is, ac i ystyried benthyciadau ar gyfradd amrywiol os oes angen benthyca'n gynnar yn y flwyddyn. Dylid buddsoddi cronfeydd dros ben yn unol â'r rhagolygon diweddaraf o'r farchnad.

**Y Cefndir Economaidd ar gyfer 2005-2006**

**4.** Fel y rhagwelwyd bu gostyngiad mewn cyfraddau llog yn ystod y flwyddyn, gyda'r gyfradd sail yn gostwng ¼% o 4.75% i 4.50%. Bu mwy o symudiad mewn cyfraddau llog a bennwyd am dymor hirach, gyda'r rhain yn codi a gostwng mewn ymateb i symudiadau sylweddol yn nisgwyliadau'r farchnad. Bu i'r Awdurdod fanteisio ar y symudiadau mewn cyfraddau llog gan sicrhau ariannu tymor hir ar gyfraddau cymharol isel.

**Gweithgarwch Rheoli'r Trysorlys 2005-2006**

**5. Benthyca**

Y Bwrdd Benthyciadau Gweithfeydd Cyhoeddus sy'n darparu'r holl fenthyciadau cyfalaf ar gyfer yr Awdurdod. Y swm a fenthyciwyd yn 2054-2006 oedd £1,400,000, ac roedd hynny yn unol â'r Terfyn Benthyca a gyfrifwyd ar gyfer yr Awdurdod. Y sefyllfa o ran benthyca ar 31 Mawrth 2006, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol oedd:

| | 31 Mawrth 2006 | | 31 Mawrth 2005 | |
|---|---|---|---|---|
| | Prifsymiau | Y gyfradd ar gyfartaledd % | Prifsymiau | Y gyfradd ar gyfartaledd % |
| Dyled Cyfradd Llog Sefydlog | 8,513,428 | 4.647 | 6,149,428 | 4.744 |
| Dyled Cyfradd Llog Amrywiol | 0 | 0 | 964,000 | 4.956 |
| Cyfanswm y Ddyled | 8,513,428 | 4.647 | 7,113,428 | 4.850 |

## Gweithgarwch Rheoli'r Trysorlys 2005-2006 *(parhad)*

**6. Buddsoddiadau**

Mae polisi buddsoddi'r Awdurdod yn cael ei lywodraethu gan Gyfarwyddyd y Cynulliad Cenedlaethol, sy'n cael ei roi ar waith yn y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ar 15 Rhagfyr 2003. Roedd y gweithgarwch buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â'r strategaeth a gymeradwywyd, ac nid oedd yr Awdurdod wedi cael unrhyw drafferthion hylifedd.

Cafodd yr holl arian dros ben ei fuddsoddi ar y farchnad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar ran yr Awdurdod Tân ac Achub. Balans y buddsoddiadau ar gyfartaledd am flwyddyn oedd £4,000,000. Balans y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2006 oedd £4,690,000, o'i gymharu â £4,770,000 ar 31 Mawrth 2005.

Y gyllideb ar gyfer incwm buddsoddi am 2005-2006 oedd £120,000; a'r gwir incwm o fuddsoddiadau a gafwyd oedd £223,005. Y rheswm am y cynnydd sylweddol yn yr incwm a ddisgwyliwyd yw strategaeth fuddsoddi ddarbodus, cyfraddau llog uwch na'r flwyddyn flaenorol a pheth bargeinio blaenllaw.

## Dangosyddion Darbodus a Materion Cydymffurfiaeth

**7.** Mae gofyn i'r Awdurdod, trwy'r Côd Darbodus, i adrodd ynghylch y gwir ddangosyddion darbodus wedi diwedd y flwyddyn. Mae Atodiad A yn rhoi rhestr o'r dangosyddion darbodus gorfodol. Mae rhai o'r dangosyddion hyn, naill ai'n rhoi trosolwg neu gyfyngiad ar weithgarwch y trysorlys, a dangosir y rheini ar y dudalen nesaf:

## Dangosyddion Darbodus a Materion Cydymffurfiaeth
*(parhad)*

| | 31 Mawrth 2006 Gwir £'000 | 31 Mawrth 2006 Dangosydd Gwreiddiol £'000 |
|---|---|---|
| Y sefyllfa o ran benthyca | 8,513 | 9,335 |
| Gofyniad Ariannu Cyfalaf | 7,964 | 9,335 |

Mae'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf yn dangos angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyca at ddiben cyfalaf, ac mae hyn yn fodd i fesur sefyllfa'r Awdurdod o ran dyledion, fel y gwelir uchod. Er mwyn sicrhau yn y cyfnod canolig mai benthyciadau'n net o fuddsoddiadau yn unig a wneir at ddibenion cyfalaf, ni ddylai benthyciadau, ac eithrio yn y tymor byr, fod yn uwch na'r Gofyniad ar gyfer 2005 - 2006 ynghyd â'r newidiadau disgwyliedig yn y Gofyniad ar gyfer 2006-2007 a 2007-2008. Mae'r tabl uchod yn tynnu sylw at y ffaith fod sefyllfa'r Awdurdod o ran benthyciadau net wedi mynd yn uwch na'r Gofyniad ar gyfer 2005-2006 oherwydd i wariant ar y Rhaglen Gyfalaf fod yn is nag a gyllidebwyd ar ei gyfer. Bydd y sefyllfa'n cael ei chywiro yn 2006-2007 gan y bydd angen rhagor o fenthyciadau i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf.

**Dangosyddion Darbodus a Materion Cydymffurfiaeth**
*(parhad)*

| | **2005/06**<br>**£'000** |
|---|---|
| Dangosydd Gwreiddiol – Terfyn a ganiateir | 13,790 |
| Dangosydd Gwreiddiol – Ffin Weithredol (*Operational Boundary*) | 11,790 |
| Y sefyllfa uchaf o ran benthyciadau yn ystod y flwyddyn | 8,513 |
| Y sefyllfa isaf o ran benthyciadau yn ystod y flwyddyn | 7,113 |

Y Terfyn a Ganiateir yw'r "Terfyn Benthyca Fforddiadwy" sy'n angenrheidiol dan Adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r tabl yn dangos fod y Awdurdod, yn ystod 2005-2006, wedi cynnal ei fenthyca gros o fewn y Terfyn a Ganiateir.

Y Ffin Weithredol (*Operational Boundary*) yw'r sefyllfa a ddisgwylir o ran benthyciadau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn, ac mae'r cyfnodau pryd y mae'r wir sefyllfa naill ai yn is neu dros y Ffin yn dderbyniol yn ddibynnol ar beidio â mynd heibio'r Terfyn a Ganiateir.

## Y Fframwaith Rheoleiddiol, Risg a Pherfformiad

**8.** Mae gweithgareddau rheoli trysorlys yr Awdurdod yn cael eu rheoleiddio gan amryw godau proffesiynol a statudau a cyfarwyddiadau proffesiynol:

- Deddf Llywodraeth Leol 2003 (y Ddeddf), sy'n darparu'r pwerau i fenthyca a buddsoddi yn ogystal â darparu rheolaethau a therfynau ar y gweithgaredd hwn
- Mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol osod terfynau naill ar yr Awdurdod neu'n genedlaethol ar bob awdurdod lleol i gyfyngu ar y swm y gellir ei fenthyca (er na wnaed unrhyw gyfyngiadau yn 2005/06);
- Offeryn Statudol 3239 (W319) 2003, fel y'i diwygiwyd, yn datblygu'r rheolaethau a'r pwerau o fewn y Ddeddf;
- The OS yn mynnu bod yr Awdurdod yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd benthyca gydag ystyriaeth o God Darbodus y CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol;
- Mae'r OS hefyd yn mynnu bod yr Awdurdod yn gweithredu swyddogaeth gyffredinol y Trysorlys gydag ystyriaeth o God Ymarfer y CIPFA ar Reoli'r Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Dan y Ddeddf, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cyhoeddi Canllawiau Buddsoddi i strwythuro a rheoleiddio gweithgareddau buddsoddi yr Awdurdod.

Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â phob un o'r gofynion statudol a rheoleiddio perthnasol uchod sy'n rhoi terfynau ar y lefel risg sy'n gysylltiedig â'i weithgarwch rheoli'r trysorlys. Yn arbennig, mae'r ffaith iddo fabwysiadu a gweithredu'r Cod darbodus a'r Cod Ymarfer ar Reoli'r Trysorlys yn golygu bod ei wariant cyfalaf yn ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy, a bod ei arferion yn y trysorlys yn dangos ffordd risg isel o fynd ati.

## 9. Argymhellion

Argymhellir bod yr Aelodau yn:

i cymeradwyo'r gwir Ddangosyddion Darbodus am 2005-2006;

ii nodi'r wybodaeth am weithgarwch Rheoli'r Trysorlys am 2005 – 2006.

*ATODIAD A*

| | | **2005/06 Gwir** | **2005/06 Dangosydd Gwreiddiol** |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant Cyfalaf | 1,149,738 | 2,483,410 |
| 2 | Gofyniad Ariannu Cyfalaf | 7,693,962 | 9,335,000 |
| 3 | Benthyca | 8,513,428 | 9,335,000 |
| 4 | Buddsoddiadau | 4,690,000 | 4,770,000 |
| 5 | Terfyn a Ganiateir | 8,513,428 | 13,790,000 |
| 6 | Ffin Weithredol | 8,513,428 | 11,790,000 |
| 7 | Cymhareb y Costau Ariannu i Lif Refeniw Net | 2.61% | 2.67% |
| 8 | Effaith Gynyddrannol Penderfyniadau Buddsoddiad Cyfalaf ar y Cyfraniadau oddi wrth yr Awdurdodau Cyfansoddol | 28,169 | 60,843 |
| 9 | Benthyciadau Cyfradd Llog Sefydlog fel % o Gyfanswm y Benthyciadau | 100% | 55% - 100% |
| 10 | Benthyciadau Cyfradd Amrywiol fel % o Gyfanswm y Benthyciadau | 0% | 0% - 45% |
| 11 | Strwythur Aeddfedu Benthyciadau Cyfradd Sefydlog | | |
| | Dan 12 mis | 6% | 0% - 30% |
| | 12 mis i 2 flynedd | 12% | 0% - 30% |
| | 2 flynedd i 5 flynedd | 19% | 0% - 50% |
| | 5 mlynedd i 10 mlynedd | 12% | 0% - 75% |
| | 10 mlynedd a throsodd | 51% | 20% - 90% |
| | | | |